# Cyflwyniad i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol

## Trawsgrifiad fideo

A ydych chi'n teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r heriau byd-eang niferus sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys heriau amgylcheddol, economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol neu'n ymwneud ag iechyd?

A ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth, yn wleidyddol neu'n gymdeithasol?

Bydd y cwrs hwn, a ysgrifennwyd ar y cyd gyda seneddau'r DU, Cymru a'r Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon, yn cynnig arweiniad ac ysbrydoliaeth i wneuthurwyr newid, waeth pa mor fach.

Drwy ddarparu gwybodaeth gefndirol hanfodol i'ch helpu i ddechrau arni, byddwch yn derbyn adnoddau i'ch galluogi i

wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol, drwy enghreifftiau o wneuthurwyr newid ysbrydoledig, a chyngor ynglŷn â sut i gael effaith oddi mewn a thu allan i wleidyddiaeth seneddol.

Byddwch yn archwilio rhai o'r sgiliau dinasyddiaeth allweddol a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer ymyrryd yn y byd wrth iddo newid, a deall beth yn union mae 'dinasyddiaeth weithredol' yn ei olygu. Yn y pen draw, bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth a enillwch yn y byd go iawn, ac i ymarfer y sgiliau allweddol sydd eu hangen i wneud newid. Felly, gadewch i ni ddechrau arni!